

FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
8 Hydref 2018
Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun

Yn bresennol:

AELODAU:

Karen I Evans(KIE)
Neil Foley(NF)
Dr Paul Evans(PE)
Sue Dick (SD)
Mari Gaskell (MG)
Rona Jones (RJ)
Mark Hatch (MH)
Huw Hilditch Roberts (HHR)
Shannon Gage (SG)
Rona O'Neill (RON)
Lindsey Davenport (LD)
Bethan Jones (BJ)
Geraint Parry (GP)
Dominic Tobin (DT)
Teleri Llwyd Jones (TLJ) (Is-Gadeirydd)

**RHAI NAD YDYNT YN
AELODAU:**

Craig Joyce (CAJ)
Steve Gadd (SGadd)
Cathy Howatson (Cofnodion)
Laura Poole (LP)
Ian Land (IL)
Geraint Davies (GD)
Kevin Mowbray (KM)
Jamie Roberts (JR)

Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant
Ysgol Uwchradd Prestatyn
Ysgol Uwchradd Dinbych
Ysgol Bodfari
Ysgol Llywelyn
Ysgol y Santes Ffraid - (Cadeirydd)
Ysgol Dinas Brân
Aelod Arweiniol Addysg
Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion
Cynradd
Tir Morfa
Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion
Uwchradd
Ysgol Gwernant
Ysgol Brynhyfryd
Bendigaid Edward Jones
Ysgol Borthyn

Rheolwr Cyllido Ysgolion
Prif Gyfrifydd
Swyddog Cyllido Ysgolion
Rheolwr Cyllid – Clwstwr Dinbych
Cynllunio ac Adnoddau
Prif Reolwr Addysg
Rheolwr Cyllid – Clwstwr Dinas Brân
Rheolwr Busnes - Dinas Brân

Croeso

Croesawodd Rona Jones (Cadeirydd) y grŵp.

Roedd 16 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.

1. Ymddiheuriadau

Gethin Jones – Ysgol Tremeirchion
Helen Vernon - Ysgol Bodnant
Bethan Cartwright – Ysgol Glan Clwyd
Vicki Cotgreave – Ysgol y Castell
Liz McClean – Cynrychiolydd Undeb Athrawon

2. Cofnodion 12/6/18. Cofnodion wedi'u cytuno gan y fforwm.

GWEITHREDU – CH i ail-anfon cyflwyniad gan Richard Weigh ar gyllidebau ysgolion yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Cynllun ar gyfer Cyllido Ysgolion

Mae CAJ wedi bod yn diweddarau'r cynllun ar gyfer cyllido ysgolion. Mae cyfarfod wedi'i gynnal gyda Karen Evans a Geraint Davies i gadarnhau. Yna bydd y fersiwn wedi'i chwblhau yn mynd allan ar gyfer ymgynghoriad gydag ysgolion, erbyn mis Rhagfyr os yn bosibl.

3. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

PENDERFYNIAD

Wedi'i haillethol fel Cadeirydd - Rona Jones
Wedi'i hethol fel Is-Gadeirydd - Shannon Gage

4. Adolygu'r Fformiwla Ariannu

Yn y cyfarfod diwethaf, cytunodd y fforwm i adolygu'r fformiwla ariannu. Sefydlwyd is-grŵp a gwnaethant gyfarfod ym mis Gorffennaf. Aeth Steve Gadd, Craig Joyce, Mari Gaskell, Geraint Parry, Shannon Gage, Geraint Davies, Cathy Howatson (nodiadau) drwy bob llinell o'r fformiwla ariannu a chytuno i sicrhau bod y fformiwla ariannu yn deg, clir a thryloyw.

Ategu Cyfandaliad cwricwlwm – Soniodd CAJ am y cyfandaliadau o ran dyraniad y cwricwlwm pe bai ysgolion mawr yn cynyddu i >401 yn hytrach na >251.

MG – Nid oes dosbarthiad swyddogol ar gael ar gyfer ysgol fawr neu ysgol fach a byddai cyngor yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru ar hyn yn hir ddisgwyliedig.

Yna soniodd CAJ am >351 a theimlwyd bod hwn yn ffigur mwy teg ar gyfer ysgol "fawr".

Roedd GD yn teimlo bod angen bod yn glir o ran y cyllid a beth yw ei bwrpas, er mwyn bod yn deg a chyson.

ARGYMHELLIAD I FfCY – CYNYYDDU YSGOL FAWR I >351 O >251 AT DDIBENION ATEGU CYFANDALIAD CWRICWLWM.

Cytunodd y fforwm i'r argymhelliad.

Dyrannu llwyth gwaith – Soniodd CAJ fod ysgolion Uwchradd ac ysgolion Arbennig yn cael £4.6k fesul athro ar gyfer cyfandaliad llwyth gwaith yn hytrach na £1.5k (£3k fel cyfartaledd o'r ddau mewn ysgol Arbennig). Roedd hyn yn unol â'r dull Cynradd – maen nhw'n cael 10% o raddfa UPS1 fesul athro.

Cafwyd trafodaeth am degwch y newid a dywedwyd bod tâl ac amodau athrawon yr un fath ym mhob sector. Teimlwyd y dylid gwneud y newid hwn er mwyn i bob sector fod yr un fath.

Gwnaeth LD y cyfrifiadau ond nid yw'n deall sut mae'r ffigurau a gyflwynwyd wedi'u cyfrifo. Nid oedd LD yn gweld pwynt newid y fformiwla oherwydd mai dim ond dwy ysgol sydd ar eu hennill a bydd tair ysgol ar eu colled.

Gofynnodd HHR a oedd yr elfen iaith Gymraeg yn gysylltiedig? Eglurodd CAJ nad oedd yn gysylltiedig. SGage – Mae'n deg i'r holl athrawon ar draws y sector cynradd ac uwchradd.

Cytunodd LD â'r egwyddor ond mynegodd bryderon ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl oherwydd byddant yn colli cyllid.

MG – teimlai ei bod yn deg i bob ysgol ond nid oedd LD yn cytuno.

GP – dewis arall yw lleihau'r £4.6k mae ysgolion cynradd yn ei gael fel bod pob ysgol yn cael yr un fath?

Mae i gyd yn gyllid tuag at CPA/Llwyth gwaith. Mae'r ffordd y caiff ei roi ar hyn o bryd yn ddisynnwyr.

DT – Mae rhai ysgolion wedi elwa dros y blynyddoedd pan na ddylent o bosibl.

KE – Y pwynt oedd profi'r fformiwla ac wrth symud ymlaen rydym i gyd yn wynebu amseroedd anodd. Mae angen i ni fod yn ffyddiog bod y fformiwla ariannu sy'n anfon y cyllid i ysgolion yn ategu'r egwyddorion.

Mae'r egwyddor yn sbarduno'r gweithredu.

Gofynnodd PE a fyddai ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunwyd y byddai.

RJ – Bydd niferoedd disgyblion yn amrywio a fydd yn golygu y bydd y ffigurau yn amrywio.

Atgoffodd KE y grŵp fod DT a MG o Glwstwr y Rhyl a byddent yn adrodd yn ôl pe na bai eu clwstwr yn hapus. Nid yw MG wedi trafod gyda Claire Armistead nes i'r fforwm wneud penderfyniad.

CAJ – Y data a ddefnyddir yw ffurflen mis Medi y llynedd, oherwydd nad yw Medi 18 wedi'i gadarnhau.

SD – Y fforwm sy'n gwneud y penderfyniad ac ni fydd pawb yn hapus.

Mae RJ yn teimlo bod gwirfoddolwyr o'r grŵp wedi cael y dasg o edrych ar y fformiwla. Mae rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled bob amser ond rhaid i'r fformiwla fod yn deg. Dylid ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd gan yr is-grŵp.

HHR – Y tro diwethaf i'r fformiwla newid, roedd mwy ar eu hennill a'u colled na'r darn hwn o waith.

ARGYMHELLIAD I FfCY – NEWID Y CYFANDALIAD LLWYTH GWAITH MEWN YSGOLION

UWCHRADD AC YSGOLION ARBENNIG I £4.6K I GYFATEB Â'R SECTOR CYNRADD.

Cytunodd y fforwm i'r argymhelliad.

Nofio – Soniodd CAJ am ysgolion yn cael cyfandaliad llai, ynghyd â swm fesul disgybl fesul ysgol. Byddai hyn yn cynyddu cyllid ar gyfer ysgolion mwy a lleihau cyllid ar gyfer ysgolion llai. Nodwyd bod nifer o ysgolion bach yn gwario llai na £1,071 (cyfandaliad presennol) ar nofio, a bod rhai ysgolion mawr yn gwario mwy na >£5k.

Soniodd CAJ am opsiynau cyfandaliadau llai - £250, £500 a £750. Ar gyfer swm mor fach ac er budd tegwch a diogelu ysgolion llai, cytunwyd ar ffigur o £750.

Gofynnodd DT a oedd gan bob ysgol fynediad i bwl nofio?

MG – Oes, dylai bob gan bob ysgol fynediad i bwl nofio gan ei fod yn rhan o'r cwricwlwm.

Gofynnodd BJ a oedd unrhyw gyllid ar gael ar gyfer costau cludiant? Dywedodd CAJ nad oedd.

AWGYMHELLIAD I FFCY – NEWID Y CYFANDALIAD NOFIO O £1K I £750 FESUL YSGOL A BOD GWEDDILL Y POT YN CAEL EI DDIRPRWYO DRWY NIFEROEDD DISGYBLION.

Cytunodd y fforwm i'r argymhelliad.

GWEITHREDU – CAJ i ddiwygio'r fformiwla ar gyfer 2019/20 gyda'r holl argymhellion a gytunwyd.

5. Dirprwyo / Adolygiad Gwasanaethau Masnach

Gwirfoddolwyr yr is-grŵp oedd Rona Jones, Mari Gaskell, Sue Dick, Geraint Davies, Craig Joyce
GD – Teimlwyd bod angen i'r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth fod yn dryloyw a chliir i ysgolion. Gwnaed diwygiadau i'r dogfennau CLG gan ychwanegu GD fel pwynt cyswllt ac mae pob gwasanaeth wedi rhestru risgiau a manteision optio i mewn/allan o'u gwasanaethau. Ni chaiff CLG eu gorfodi ar ysgolion.

RJ – Mae angen i ysgolion ystyried y staffio yn y gwasanaethau os byddant yn optio allan.

LD – Dywedwyd wrth PHS na fyddai modd iddynt optio allan o'r CLG arlwygo a hoffent gael y CLG yn gynt oherwydd roedd yn teimlo nad yw 2/3 wythnos i wneud penderfyniad i optio i mewn neu allan yn ddigon o amser. Mae angen amser arnynt i chwilio am opsiynau eraill.

Dywedodd DT y gellir chwilio mewn manau eraill ar unrhyw adeg, hyd yn oed cyn i'r CLG gael eu hanfon.

RJ – Nid yw Ysgol y Santes Ffraid yn y contract arlwygo na glanhau, sy'n golygu bod rhaid i'r ysgolion dalu unrhyw godiadau cyflog costau staffio/cynnydd o gyllideb yr ysgol. Maen nhw hefyd yn cymryd perchnogaeth o'r holl offer a gwaith atgyweirio. Mae risgiau a manteision i bob gwasanaeth.

Os bydd ysgolion am optio allan, mae angen golwg dryloyw arnynt o'r hyn maen nhw'n ei gael mewn gwirionedd.

Roedd LD yn anghytuno ac mae angen cyfle i chwilio mewn manau eraill ac mae angen gwybod beth yw'r risgiau.

Gofynnodd LD a oedd modd eu cael ym mis Gorffennaf oherwydd mae angen iddynt fynd i gyfarfod llawn y llywodraethwyr, neu o leiaf rai wythnosau'n gynharach.

LP – Gellir cwblhau gwaith tua 12 mis yn gynharach i chwilio am wasanaethau mewn manau eraill.

CAJ – Nid yw'r CLG eu hunain yn newid yn ddramatig, mae'n bosibl y bydd rhai mân ddiwygiadau o'r naill flwyddyn i'r llall a gallai rhai gynyddu costau yn unol â chwyddiant. Nid oedd CAJ yn hapus i edrych ar CLG ym mis Ebrill oherwydd dyma pryd mae'r cyllidebau yn cael eu paratoi i fynd allan. Byddai hefyd yn golygu newid sylfaenol o ran y data a ddefnyddir, oherwydd data mis Medi a gaiff ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

SGage – Os bydd CLG yn eitem ar raglenni cyfarfodydd Llywodraethwyr, mae angen eu hadolygu'n barhaus.

HHR – Mae angen i ysgolion ystyried y contractau a rheoli amser ar ben optio allan.

RJ – Mae'n rhy hwyr eleni oherwydd nad ydynt wedi'u hanfon allan eto, a oes posibil iddynt gael eu hanfon yn gynharach y flwyddyn nesaf, diwedd mis Medi?

Mae LD wedi codi'r un pryder o'r blaen a dywedwyd y byddent allan yn gynharach ond nid oedd hyn yn wir. A oes posibil cael 4 wythnos i edrych arnynt?

Mae CH wedi cyfarfod pob rheolwr gwasanaeth ac mae wedi gofyn i gopïau wedi'u cwblhau gael eu hanfon allan ond yn anffodus, nid yw pob gwasanaeth wedi cwblhau'r CLG.

Nid oedd KE yn gallu egluro pam nad oedd terfynau amser wedi'u bodloni, ond ni fydd yn gallu ymrwmo i derfyn amser penodol oherwydd bod pob swyddog dan bwysau i weithio dan derfynau amser caeth.

GP – Mae terfynau amser yn amherthnasol gan eich bod yn cynllunio ar gyfer y 12 mis o flaen llaw.

Diolchodd MG i swyddogion am faint o waith sydd wedi mynd i mewn i'r CLG o safbwynt y Sir.

6. Cynaliadwyedd - Dinas Brân

Cyflwynodd MH achos busnes gan Ysgol Dinas Brân a ddsbarthwyd i'r fforwm.

Materion a godwyd

KE – Roedd yr achos busnes yn ymwneud ag eglurder i gefnogi'r ysgol.

O ran coridor y Waun, a oes yr un nifer o blant yn cael eu denu i Dinas Brân ag mewn blynyddoedd blaenorol? Dywedodd MH bod yr un nifer yn cael eu denu ond bod nifer fach o ddisgyblion y Waun wedi mynd i St. Martin's. Mae mater o ran cludiant cyhoeddus ac nid oes ganddynt unrhyw reolaeth dros hynny.

Nid oes gan fysis gwasanaeth gapasiti i ddod â nhw i gyd i'r ysgol.

RJ – Roedd yn meddwl tybed yw'r ysgol yn siarad gyda chludiant Arriva oherwydd mae Ysgol y Santes Ffraid wedi profi materion o ran diogelu hefyd. Cadarnhaodd MH eu bod wedi siarad â nhw a'u bod mewn cyswllt rheolaidd.

Gofynnodd DT a yw'r cyllid yn talu am y cludiant i gyd, neu a yw'n sybsideiddio rhywfaint ohono? - atebodd MH ei fod yn talu costau cludiant i gyd.

Gofynnodd RO os yw 70% o ddisgyblion o Wrecsam, pam maen nhw'n cael eu trin yn wahanol i eraill gan CBS Wrecsam?

Atebodd MH ei bod yn anodd ymgysylltu â Wrecsam ac nid oedd yn gallu ateb y cwestiwn.

MG – Pam mae Wrecsam yn talu i gludo disgyblion i Loegr ond nid i Gymru? Roedd hyn oherwydd eu bod yn cludo i'r 'ysgol addas agosaf', waeth lle roedd yr ysgol. Byddai CSDd yn talu i blentyn o Langollen sydd am gael addysg Gymraeg gael cludiant ar fws i Ysgol Morgan Llwyd oherwydd mai hon oedd yr ysgol GYMRAEG addas agosaf.

DE – Mae'r Faenol yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Uwchradd Dinbych ond mae rhieni yn talu am gludiant neu maen nhw'n mynd i Ysgol Emrys Ap Iwan.

Gofynnodd SGadd i'r fforwm beidio gwneud y penderfyniad ar sail cyllid yn unig, ac edrych ar y sefyllfa o safbwynt addysgu. Mae'n debygol na fyddai arbedion yn cael eu gwneud oherwydd byddai addasiad demograffig yn cael ei wneud ac mae'n debygol y byddai'r cyfandaliad cynaliadwyedd yn cael ei gymryd fel arbediad. Byddai cyllid Llywodraeth Cymru i CSDd hefyd yn lleihau oherwydd byddai llai o ddisgyblion yn yr Awdurdod.

Gadawodd Mark Hatch / Jamie Roberts / Kevin Mowbray a Steve Gadd y cyfarfod oherwydd roedd gwrthdaro buddiannau. Bu'r aelodau a oedd ar ôl yn trafod yr achos busnes.

Cyrhaeddodd TLL am 3.30pm.

RJ – Mewn egwyddor, mae'r cyllid yn iawn ond faint o ysgolion eraill sydd â disgyblion o'r tu allan i'r Sir?

KE – 2 / 3 blynedd yn ôl, buom yn edrych ar dryloywder cynaliadwyedd. Mae gan goridor y Waun nifer fach o ddisgyblion. Mae perthnasoedd wedi'u cynnal o hen Sir Clwyd. Ydi'r egwyddor yn iawn?

Mae rhai yn talu am gludiant ac mae angen rhoi ystyriaeth i'r polisi cludiant. Faint o effaith o ran cost fyddai ar y gyllideb?

IL – Mae'n dda cael trafodaethau o ran cynaliadwyedd. Mae nifer fawr o anghysonderau a dull dwy haen o ran tegwch.

MG – Cytunwyd ei bod yn beth da trafod ac mae'n eu cefnogi. A oes angen iddynt ddod bob blwyddyn gydag Achos Busnes? A fyddai'n well iddynt gael eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn?

LD – Mae Dinas Brân yn ysgol lwyddiannus ac nid oes dewis yn y mater hwn felly pam rydym yn ei drafod?

GP – roedd o'r farn y dylid ailedrych ar y cyllid bob blwyddyn.

KE – Mae angen rhoi ystyriaeth i CBS Wrecsam wrth wneud y penderfyniad. Mae'r ysgol yn cyflwyno achos i gyfiawnhau rhesymau dros gytuno'r egwyddor ond nid ydynt wedi edrych ar parent pay.

SGage – Ydi'n bosibl talu am fl 7/8/9 ac i 10/11 dalu am eu hunain?

KE - Nid yw effaith tynnu'r elfen gynaliadwyedd wedi'i hystyried yng nghyd-destun lleihad cyffredinol o ran nifer y disgyblion wedi'u cofrestru.

HH – Mae Dinas Brân ym mand B y rhaglen moderneiddio addysg, a gallai gymryd 6 mlynedd nes iddi gael ei gweithredu.

GP – pe bai canlyniadau yn lleihau, byddai niferoedd yn lleihau. Dylid rhoi'r cyllid ar gyfer 2019/20 ond yna edrych ar leihad wedi'i reoli o ran cyllid ym mlynnyddoedd y dyfodol o bosibl.

KE – bydd lleihad wedi'i reoli angen llawer o waith gan yr ALL ac mae nosweithiau agored wedi'u cynnal eisoes mewn ysgolion ar gyfer mis Medi nesaf.

Roedd HH o'r farn y dylai'r fforwm gytuno i'r cyllid ar gyfer eleni gyda rhagor o waith i'w wneud.

Bydd KE yn edrych ar drefnu grŵp i edrych ar yr achos. Bydd yn cynnwys Swyddogion o CSDd, y Gyfraith,

cynrychiolwyr FfCY a chynrychiolydd o'r ysgol.

Gweithredu - KE i anfon e-bost gyda gwybodaeth.

Dychwelodd MH/JR/KM i'r cyfarfod. Dywedodd RJ beth oedd y penderfyniadau a wnaed gan y fforwm.

Y cynigion: -

- Bod fforwm y gyllideb yn cymeradwyo parhad cyllid cynaliadwyedd ar gyfer yr ysgol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. -
Gwnaeth y Fforwm gytuno'r cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ond nid ar ôl 2019/20.
- Bod cyllid cynaliadwyedd ar gyfer "tu allan i'r sir" ar gyfer yr ysgol yn cael ei gynnal yn y fformiwlâ o 2019-20 ymlaen.
Fel uchod.
- Bod y fforwm cyllideb ysgolion yn cytuno y caiff hyn ei adolygu os a phan fydd costau'n uwch na £275k.
Mae'r Fforwm yn teimlo bod angen gwneud gwaith wrth symud ymlaen. Bydd KE yn cyfarfod MH ar wahân. Bydd angen i'r ysgol fynychu'r Fforwm bob blwyddyn i gyflwyno eu hachos.
- Y gost a ragwelir ar gyfer 2018-19 yw £222,712 ond ni fyddwn yn gwybod yn bendant tan fis Ebrill 2019. Dyranwyd £220k i'r ysgol yn y fformiwlâ ariannu. Mae'n debygol y bydd y cyllid gofynnol ar gyfer 2019/20 ar lefel debyg.
Cytunodd y fforwm ar y cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

7. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Cronfeydd Cyfun

Nid oedd Paul Senior yn gallu mynychu'r cyfarfod. Soniodd CAJ am y cynlluniau cyfun a oedd ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i beidio cael eu gorwario. Gall amrywiadau mawr ddigwydd felly roedd angen trin hyn gyda gofal.

PENDERFYNIAD – Cytunodd y Fforwm i adael y cyfraniadau cynlluniau cyfun fel y maent ar gyfer 2018/19 ar hyn o bryd.

8. Materion yn codi o'r cyfarfodydd Clwstwr

MG – Mae clwstwr y Rhyl yn anghytuno'n gryf gyda'r polisi arlwygo gan nodi y bydd yn ad-dalu ysgol am ddyledion cinio rhieni. Mae cyllideb yr ysgol ar gyfer addysgu'r disgyblion. Ydi hi'n gyfreithiol gywir y gallant gymryd yr arian o gyllideb yr ysgol? Mae MG o'r farn ei fod yn sylfaenol anghywir.

KE – Nid yw'r polisi yn dod o fewn yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau yn edrych arno ar hyn o bryd ar ôl digwyddiadau diweddar. Bydd KE yn adrodd pryderon yn ôl wrth y Pennaeth Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Mynegodd GP bryder fod y ddyled yn trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd o'r Ysgol Gynradd. Nid oedd yn teimlo bod hyn yn iawn.

LD – Mae'n bosibl y bydd rhagor o newidiadau wrth i'r Credyd Cynhwysol newydd ddisodli credydau treth.

GWEITHREDU – KE i fynegi pryderon.

9. UNRHYW FATER ARALL

Diweddariad ar y Gyllideb

SGadd – Mae'r Sir yn aros am y setliad drafft ar 09/10/18. Mae CSDd eisoes yn ystyried codiadau cyflog a chwyddiant ac mae pwysau yn mynd i mewn ar gyfer cynnydd £1.8m o ran pensiynau. Nid ydym yn gwybod eto sut caiff hyn ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20.

Bydd y setliad terfynol ar gael ym mis Rhagfyr.

Tybir caiff ffigwr demograffeg o +£790k ei ychwanegu at gyllidebau ysgolion, fodd bynnag bydd y ffigwr terfynol yn seiliedig ar ddata CYBLD mis Medi. Mae arbedion 1% eisoes wedi'u cynnwys mewn cyllidebau dangosol.

Yn y cyfarfod diwethaf, soniodd y Prif Weithredwr fod angen i ni ganfod rhagor o arbedion o ysgolion.

Gallai'r cynnig fod yn 1% o arbedion ychwanegol ar gyfer ysgolion (cyfanswm o 2%) - £660k ychwanegol.

Mae gan y Cyngor fwlc h ariannu o £4.7m.

KE – mae wedi cyfarfod CCAC, mae'n debyg y caiff grantiau eu hadfer. Bydd unrhyw arian ychwanegol yn mynd i ysgolion. Mae trafodaethau rhanbarthol am doriadau byd-eang a beth fydd yr effaith ar ysgolion. Mae angen edrych ar y polisi i gymryd gwagedd yn ôl. Mae'r gwaith ar hyn eisoes wedi dechrau.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - Dydd Llun 21 Ionawr, 2019 - 9:30am, Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.